Bluespace
ACCESS & CONSERVATION TRUST
YMDDIRIEDOLAETH MYNEDIAD A CHADWRAETH



SIARTER MANNAU GLAS 2022

AR GYFER MYNEDIAD CYFRIFOL I GRONFEYDD DŴR I BAWB

MAE AMSER SY'N CAEL EI DREULIO YM MYD NATUR YN HANFODOL AR GYFER EIN HIECHYD A'N LLES, AC MAE YMCHWIL YN DANGOS Y GELLIR CAEL BUDDION HYD YN OED YN FWY WRTH WNEUD YMARFER CORFF A THREULIO AMSER HAMDDEN YM MYD NATUR. DYLAI FOD MYNEDIAD AGORED A CHYFARTAL I BAWB AT Y BUDDION HYN.

RYDYM NI'N GALW AM:

1. • Dylai pawb allu mwynhau buddion corfforol a lles treulio amser hamdden mewn mannau glas yn gyfrifol, heb gyfyngiadau yn sgil maent yn byw, eu statws neu eu gallu i dalu.

2. • Dylai corfforaethau rheoli dŵr gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu mynediad cyhoeddus at ddiben adloniant cyfrifol, a bod yn atebol amdanynt.

3. • Dylai mynediad fod yn gynhwysol, yn gyfartal ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a dylai fod ar gael at unrhyw ddiben cynaliadwy. Gallai eithriadau neu gyfyngiadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddewis yr opsiwn lleiaf cyfyngedig posib.

4. • Dylai'r cyhoedd gael ei alluogi a'i rymuso drwy ddarpariaeth gwybodaeth gywir a ffeithiol i wneud asesiadau risg/buddion a chymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u diogelwch eu hunain.

5. • Bydd pob parti yn dilyn côd ymddygiad sy'n rhwymo.





Mae ein mannau awyr agored yn perthyn i bob un ohonom. Maent yn adnodd gwerthfawr i holl bobl Cymru, yn gyfle gwerthfwr i wella ein llesiant corfforol a meddyliol, a'n helpu i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach

Iechyd Cyhoeddus Cymru [i]



DYLAI PAWB ALLU MWYNHAU BUDDION CORFFOROL A LLES TREULIO AMSER HAMDDEN MEWN MANNAU GLAS YN GYFRIFOL, HEB GYFYNGIADAU YN SGIL MAENT YN BYW, EU STATWS NEU EU GALLU I DALU.

Nid oes gan lawer o bobl, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, fynediad i fannau glas [ii] o fewn pellter cyffyrddus o'u cartrefi, ac o ganlyniad ni chânt fwynhau buddion adloniant mewn mannau glas.

Mae corfforaethau rheoli dŵr [iii] yn rheoli mynediad i ardaloedd mawr o fannau glas, gan gynnwys nifer fawr o gronfeydd dŵr, y mae llawer ohonynt yn agos i ganolfannau poblogaeth. Mae cronfeydd dŵr yn adnodd gwych ar gyfer adloniant ar y dŵr mewn llawer o wledydd, gan gynnwys yr Alban a mannau cyfyngedig yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru ac yn Lloegr, mae cronfeydd dŵr dim ond ar gael ar sail gyfyngedig â ffi, neu maent yn gyfan gwbl 'y tu hwnt i fynediad' y cyhoedd.

Mae anghyfiawnder cyfyngu mynediad y rhai hynny heb y gallu i dalu, a/neu fodloni gofynion amseroedd sesiynau penodedig yn annaliadwy. Yn rhy aml, mae adloniant mannau glas y tu hwnt i gyrraedd y bobl hynny â'r angen mwyaf amdano, sef pobl ar incwm isel, y rhai hynny â chyfrifoldebau gwaith neu deulu, neu bobl ag anghenion arbennig sy'n cyfyngu ar amrywiaeth y gweithgareddau maent yn gallu eu gwneud.

Mae gwir gyfleoedd cyfartal yn gofyn am ragdybiaeth er budd mynediad at unrhyw ddiben cynaliadwy. Dylai'r mannau glas hyn gael eu cynnwys am byth fel mannau cyhoeddus y gall pawb eu cyrchu'n gyfrifol, at unrhyw ddiben cynaliadwy.





Mae gofynion ar gorfforaethau rheoli dŵr i wneud eu heiddo'n hygyrch at ddibenion adloniant y cyhoedd eisoes yn bodoli.

Er enghraifft:

Water Companies:

Water Industry Act:

"...so long as that company has rights to the use of water or land associated with water, that those rights are exercised so as to ensure that the water or land is made available for recreational purposes and is so made available in the best manner. [v]"

Charities - Canal & Rivers Trust

Charitable Objects

"2.1.2 For Recreation or other leisure-time pursuits of the public in the interest of their health and social welfare [vi].

DYLAI CORFFORAETHAU RHEOLI DŴR GYFLAWNI EU RHWYMEDIGAETHAU I DDARPARU MYNEDIAD CYHOEDDUS AT DDIBEN ADLONIANT CYFRIFOL, A BOD YN ATEBOL AMDANYNT.

Ym mis Mai 1989, ymgasglodd miloedd o bobl yn agos i Gronfa Ddŵr Rivington i brotestio yn erbyn preifateiddio'r diwydiant dŵr, gan ofni y byddai preifateiddio yn peryglu mynediad y cyhoedd i dir sy'n eiddo cwmnïoedd dŵr. Mae hanes wedi dangos bod seiliau cryf i ofnau'r protestwyr.

I ryw raddau, aethpwyd i'r afael â'r mater o dir sy'n amgylchynu'r cronfeydd dŵr yn ddiweddarach yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW) [iv] , ond wnaeth CRoW fethu i fynd i'r afael â'r mater o fynediad at ddŵr a gellir dadlau y gwnaeth CRoW waethygu'r sefyllfa yn hyn o beth.

Ym mhob un o'r enghreifftiau a roddir uchod, mae'r bwriad yn ymddangos i fod yn glir. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod corfforaethau rheoli dŵr wedi cymryd llawer iawn o ddisgresiwn o ran yr hyn gallant eu galluogi, eu caniatáu neu eu gwahardd, yn y dŵr maent yn ei reoli neu o'i amgylch. Yn rhy aml, mae'r strategaeth yn ymddangos ei bod yn seiliedig ar eithrio yn hytrach na chyfranogiad, a chanlyniad hyn yw lleihau gweithgaredd neu gyfyngu ar amrywiaeth.

Mewn llawer o achosion, caiff is-ddeddfau eu defnyddio i alluogi corfforaethau rheoli dŵr i gynyddu hyd yn oed yn fwy'r cyfyngiadau y gallant eu rhoi ar waith mewn perthynas â'r cyhoedd yn mwynhau 'eu' dyfroedd.

Gallai corfforaethau rheoli dŵr fynd i'r afael â hyn drwy newidiadau polisïau a mesurau cadarnhaol, ond hyd yma nid ydynt wedi gwneud hynny. Hyd yma, nid yw llywodraethau wedi sicrhau bod corfforaethau rheoli dŵr yn bodloni eu rhwymedigaethau i ddarparu mynediad i'r cyhoedd, ond mae angen i gorfforaethau rheoli dŵr ystyried nid yn unig 'llythyren y ddeddf' ond hefyd y rhwymedigaeth foesegol a roddwyd iddynt.







DYLAI MYNEDIAD FOD YN GYNHWYSOL, YN GYFARTAL AC YN GYNALIADWY AR GYFER Y DY-FODOL, A DYLAI FOD AR GAEL AT UNRHYW DD-IBEN CYNALIADWY. GALLAI EITHRIADAU NEU GY-FYNGIADAU FOD YN SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH, GAN DDEWIS YR OPSIWN LLEIAF CYFYNGEDIG POSIB.

Mae rhai cwmnïoedd rheoli dŵr yn ceisio cyflawni eu rhwymedigaeth i ddarparu mynediad at ddiben adloniant i'r cyhoedd drwy awdurdodi un gweithgaredd neu grŵp o ddefnyddwyr ac eithrio pob un arall. Nid yn unig mae hyn yn anghyfartal ond gall beri rhwygau, yn enwedig lle rhoddir cyfrifoldeb i'r defnyddiwr a ganiatawyd am 'blismona' mynediad.

Ni ddylai corfforaethau rheoli dŵr geisio bennu o flaen llaw'r hyn mae pobl am ei wneud, lle byddant am fynd neu ar ba amser neu ym mha dymor. Dylai'r rhagdybiaeth fod y bydd mynediad at ddibenion adloniant fod unrhyw bryd ac yn unrhyw le, ac eithrio lle mae gwir angen i gyfyngu arno ar sail dystiolaeth.

Lle mae cyfleusterau megis lansio cychod a pharcio'n cael eu darparu neu eu defnyddio i greu pot mêl a/neu lywio gweithgareddau tuag at neu i ffwrdd o bwyntiau penodol, ni ddylid defnyddio hyn per se i atal mynediad neu weithgaredd o fan arall, neu i gyfiawnhau ffioedd diangen.

Pan fyddant yn gyfartal, caiff hawliau a esboniwyd yn glir eu defnyddio'n gyfrifol, a phrin bydd yr achlysuron lle bydd gweithgareddau'n wir yn anghydnaws. Dylai trefniadau rheoli fod yn eithriadau, a gyflwynwyd dim ond pan fydd gwrthdaro dilys, â thystiolaeth rhwng gweithgareddau, natur a'r amgylchedd neu gyfyngiadau gweithredol.

Ar achlysuron prin lle mae angen trefniadau rheoli, dylent fod ar sail tystiolaeth ac ar sail fesul achos, ac ni ddylid eu hystyried i fod yn gynsail ar gyfer safleoedd neu sefyllfaoedd eraill.





"Do not destroy the appeal of wild and remote places by putting up signs and fences... People should be free to participate in high risk or adventurous activities provided they are aware of the risks."

Visitor Safety Group [vii]



DYLAI'R CYHOEDD GAEL EI ALLUOGI A'I RYMUSO DRWY DDARPARIAETH GWYBODAETH GYWIR A FFEITHIOL I WNEUD ASESIADAU RISG/BUDDION A CHYMRYD CYFRIFOLDEB DROS EU GWEITHREDOEDD A'U DIOGELWCH EU HUNAIN.

Yn rhy aml, ymddengys bod corfforaethau rheoli dŵr yn gweithredu ar sail cadw pawb yn ddiogel drwy reoli, cyfyngu neu wahardd gweithgareddau, neu ddifeio'r gorfforaeth o atebolrwydd os caiff rhywun ei anafu. Yn aml, mae'n ymddangos mai bwriad arwyddion yw 'dychryn' y cyhoedd, ac annog y cyhoedd i beidio â gwneud y gweithgaredd, yn hytrach na chynnig gwybodaeth ddefnyddiol a ffeithiol i lywio penderfyniadau gwybodus a chyfrifol. Fodd bynnag, mae diwylliant sy'n rhy wrth-risg yn wrthgynhyrchiol. Mae'n gwrthod y cyfle i bobl ddysgu i asesu risgiau a gwneud dewisiadau ymddwyn sy'n wybodus.

Mae tueddiad i anwybyddu datganiadau nad ydynt yn ddefnyddiol [viii] neu sydd yn amlwg yn anwir, e.e.

"Mae'r dŵr yn eithafol o oer a phrin mae'n mynd dros sero"

Perygl o Foddi – Dim Nofio


"GALL NOFIO MEWN CRONFEYDD DŴR EICH LLADD"

Mae'r cyhoedd yn adnabod codi bwganod, ac mae'n fwy tebygol y caiff ei anwybyddu a gwneud mwy o ddrwg na daioni. Mae neges gadarnhaol gyda gwybodaeth ffeithiol yn fwy tebygol o gael ei pharchu

"Responsible risk-taking should be regarded as normal, and we should not discourage members of the public from undertaking certain activities solely on the grounds that there is an element of risk. Excessive paternalism and concern with safety may lead to infringements of personal rights. Those who are competent to judge the risk to themselves should be free to make their own decisions so long as they do not threaten the safety of others."

HSE [ix]







BYDD POB PARTI YN DILYN CÔD YMDDYGIAD SY'N RHWYMO.

Yn yr Alban, mae mynediad agored i gronfeydd dŵr ar gael i bawb, ar sail telerau Côd Mynediad Awyr Agored yr Alban

Mae Côd Mynediad Awyr Agored yr Alban [x] yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol:

- PARCHU DIDDORDEBAU POBL ERAILL.
- GOFALU AM YR AMGYLCHEDD.
- CYMRYD CYFRIFOLDEB AM EICH GWEITHRE DOEDD EICH HUNAIN.

Mae'r rhai yn seiliedig ar yr egwyddor 'volenti non fit injuria' [xi]

Gall mabwysiadu'r egwyddorion hyn gan gorfforaethau rheoli dŵr alluogi a grymuso pobl Cymru a Lloegr i fwynhau buddion adloniant mewn mannau glas, ar ac o amgylch cronfeydd dŵr yn eu ffyrdd eu hunain, ar adeg sy'n addas i'w hanghenion nhw.



[i] https://phw.nhs.wales/news/organisations-commit-to-protect-and-improve-health-and-the-naturalenvironment-in-wales/

[ii] For the purpose of this paper, we use 'bluespace' when we refer specifically to water and waterside.

[iii] For the purpose of this paper, the term 'Water Management Corporations' refers to organisations that run operations in or involving bluespace; and have powers to control access to bluespace they own, lease or manage. This includes, but is not restricted to, water supply and treatment companies, and navigation authorities.

[iv] Countryside and Rights of Way (CRoW) Act 2000 "An Act to make new provision for public access to the countryside; to amend the law relating to public rights of way; to enable traffic regulation orders to be made for the purpose of conserving an area's natural beauty; to make provision with respect to the driving of mechanically propelled vehicles elsewhere than on roads; to amend the law relating to nature conservation and the protection of wildlife; to make further provision with respect to areas of outstanding natural beauty; and for connected purposes."

[v] Water Industry Act (1991) Section 3 (5)

"Subject to obtaining the consent of any navigation authority, harbour authority or conservancy authority before doing anything which causes navigation which is subject to the control of that authority to be obstructed or otherwise interfered with, it shall be the duty of every company holding an appointment as a relevant undertaker to take such steps as are—

(a) reasonably practicable; and

(b) consistent with the purposes of the enactments relating to the functions of the undertaker in question,

for securing, so long as that company has rights to the use of water or land associated with water, that those rights are exercised so as to ensure that the water or land is made available for recreational purposes and is so made available in the best manner."

[vi] Register of Charities, Canal and River Trust, Governing Document, Charitable Objects.

[vii] Visitor Safety Group Guiding Principles Visitor Safety in the Countryside: (vscg.org)

[viii] Wording taken from various water management corporation signage on display currently or within the past year.

[ix] HSE Priorities for enforcement of Section 3 of the HSWA 1974 - July 2003 (rev April 2015) - Hazardous leisure pursuits eg bungee jumping, water sports, etc

[x] https://www.outdooraccess-scotland.scot/act-and-access-code/scottish-outdoor-access-code-visitors-andland-managers/what-scottish-outdoor-access-code

[xi] Scottish Outdoor Access Code – Part 3 Exercising access rights responsibly p22 3.11

Bluespace
ACCESS & CONSERVATION TRUST
YMDDIRIEDOLAETH MYNEDIAD A CHADWRAETH



YMDDIRIEDOLAETH MYNEDIAD A CHADWRAETH BLUESPACE

Ein Gweledigaeth

I bob aelod o'r cyhoedd ymgysylltu'n gadarnhaol â'n dyfroedd, y mannau glas a'r amgylchedd ehangach; ac i fwynhau eu hawliau o hamdden mannau glas cynaliadwy.

Ein Cenhadaeth

Bod yn bencampwr; a helpu i rymuso aelodau'r cyhoedd i fod yn hyrwyddwyr; o'n hamgylchedd dyfrol, morol a bluespace. Diogelu hawliau a rhyddid pawb sy'n ceisio hydoddedd neu fwynhad rhag hamdden cynaliadwy mewn dŵr, ar ddŵr neu wrth ei ymyl.

Charity no. 1190101

enquiries: admin@bluespaceaccessandconservationtrust.org